**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 9fed Mehefin, 2026 yn Neuadd Felinfach am 7.30pm.</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Cyng. Lynford Thomas (Cadeirydd), Haf Hughes, Dan Evans, Euros Davies, Alan Henson, Glyn Davies, Wendy Lloyd Lewis, Hywel Glyn Ifans

1. **YMDDIHEURIADAU –** Y Cyng. Melinda Williams, Gerwyn Owen, Lyn Williams

2. **PERSONOL** Nododd y Cadeirydd ei falchder bod Y Cyng. Dan Evans wedi gwella yn dilyn anhwylder yn ddiweddar ac estynwyd cydymdeimlad â'r Cyng. Gerwyn Owen ar golli chwaer-yng-nghyfraith yn ddiweddar.

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**
    i. Y Cyng. Euros Davies, Ysgol Felinfach (Cofnod 9)
    ii. Y Cyng. Haf Hughes, Eisteddfod Felinfach (Cofnod 9)

    Arwyddwyd ffurflenni Datgan Diddordeb

4. **CADARNHAU COFNODION 12/05/2026**
    Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan y Cyng. Euros Davies a'u derbyn yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**
    **15b. Hewl Troedyrhiw.** Derbyniwyd ymateb cyffredinol yn dweud bod y mater wedi ei gofnodi a bydd unrhyw weithred a gymerir yn cael eu blaenoriaethu fel mae adnoddau yn caniatáu.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR.** Yn absendoldeb y Cyng**.** Ceris Jones ni dderbyniwyd adroddiad

7. **ADRODDIAD YR HEDDLU.** Bu PC Liz Jenkins ar ymweliad â Chribyn ddydd Llun yr 8fed o Fehefin a bu'n cerdded o gwmpas y pentre' yn sgwrsio â'r trigolion. Galwodd hefyd gyda'r Clerc i ofyn os oedd unrhyw faterion penodol wedi codi oedd angen sylw.

8. **CYLLID**
    a. Tal y Clerc Ebrill '26 £251.55 (cyn cynnwys codiad 5% wedi ôl-ddyddio I Ebrill 2026.
    b. Lloyds Banc : Ffioedd Cyfrif Cyfredol o 10/04/26 – 09/05/26 £**4.25**
    c. Lloyds Banc : Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd o 10/04/26 – 09/05/26 £**4.25**
    d. Derbyniwyd ad-daliad TAW o £**100.40** ar 21ain Mai, 2026
    e. Cadarnahwyd bod yr Hysbysiad Archwiliad Allanol yn y bocsus ac ar y wefan ers 8fed Mehefin, 2026.

f. **Cyfri'r Cadeirydd.**

   i. **Penderfynwyd** trosglwyddo'r £100.00 a gytunwyd yn y gyllideb am 2026-27.
   ii. Gan na wnaed y trosgwlyddiad o £300 o'r gyllideb a gytunwyd yn 2024-25, **penderfynwyd** trosglwyddo £300 o'r Adran Amgylcheddol. Gan fod tan-wariant yn yr adran hon oherwydd ei fod y costau erbyn hyn yn nwylo'r gymuned bydd hyn yn caniatau i ni ddod nôl â balans cyfrif y Cadeirydd i'r man arferol.

**9. RHODDION ELUSENNOL;**

a. **HAHAV. £50.00** Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Alan Henson
b. **Beiciau Gwaed Cymru (Aberystwyth) £100.00** Cynigiwyd gan y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan y Cyng. Glyn Davies.
c. **HUTS. £50.00** Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Hywel Ifans.
d. **CFFI Ceredigion £100.** Cynigiwyd gan y Cyng. Euros Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Glyn Davies.
e. **Ysgol Dyffryn Aeron £200.00** Cynigiwyd gan y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan y Cyng. Dan Evans.
f. **Eisteddfod Felinfach £150.00** Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson
g. **Eisteddfod Patyfedwen Llambed £50.00** Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Euros Davies.

**10. CYNLLUNIO A230714.** Nodwyd y cynhelir cyfarfod agored ym Mhenmorfa ar 16eg Mehefin am 10.00am i drafod apêl Creuddyn Bridge Residential Park yn erbyn penderfyniad y Cyngor Sir i wrthod rhoi tystysgrif c yfreithlondeb defnydd presennol tir fel rhan o'r safle carafannau.

**11. GOHEBIAETH**

   i. Derbyniwyd ebost gan un o drigolion Bro Henllys yn tynnu sylw at y ffaith bod troseddwr rhyw plant yn treulio amser mewn tŷ ym Mro Henllys. Mewn ymateb i'r llythyrwr esboniodd y Cadeirydd nad oedd gan y Cyngor Cymuned ran wrth ddelio â'r mater ond ei fod wedi ei gyfeirio at yr heddlu. Cadarnhaodd yr heddlu bod y camau perthnasol sydd eu hangen ar faterion o'r math mewn lle.
   ii. **Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Ymgynghoriad Uned Strôc** ar lein neu ddigwyddiad galw heibio yn Canolfan Creuddyn ar 6ed Gorffennaf 2.00 – 7.00pm
   iii. **Diwrnod Agored HAHAV.** 15fed Mehefin rhwng 10.00 a 4.00 – Plas Antaron

**12. UNRHYW FATER ARALL**

a. Archebwyd Perspex newydd ar gyfer bocsus gwybodaeth Cribyn ac Ystrad.
b. Mae twll yn yr hewl wrth y troad i New Inn ger hen ysgol Felinfach sy’n creu lot o broblemau i yrrywr. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd.
c. Ers i arwydd Cribyn gael ei symud, mae mewn man lle mae tyfiant wedi ei orchuddio. **Penderfynwyd c**ysylltu ag Adran y Priffyrdd i ofyn pryd fydd y cloddiau’n cael eu torri.
d. Derbyniwyd cais gan fusnes lleol am fin gwastraff ychwanegol yn Felinfach. **Penderfynwyd** cysylltu â’r Cyngor Sir. Nodwyd hefyd bod y bin yn y ‘bus’shelter’ wedi ei dynnu o ‘na dros dro gan y clanhawr a hynny oherwydd problem gyda phobol yn ei lenwi â bagiau gwastraff o’r tai.

**13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Gorffennaf 14eg yn Ysgol Cribyn

Yn dilyn y cyfarfod hwn, fe wnaeth Clerc ac aelod o Gyngor Cymuned Llanwnnen ynghyd â’r Cyng. Sir Euros Davies ymuno â ni am sgwrs gyffredinol am drefniadau uno’r ddau gyngor y flwyddyn nesa. Penderfynwyd byddai’r Clercod yn cyfarfod cyn bo hir i drafod materion gweinyddol.